# Y CABINET DYDD MAWRTH, 4 AWST 2020

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Catrin Wager

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion) a Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Dyfrig Siencyn, Cyng. Nia Jeffreys, Cyng. Gareth Thomas, Cyng. Cemlyn Williams a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2020

Bu i'r Cadeirydd dderbyn gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2020 fel rhai cywir.

**6. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION**

Cyflwynwyd gan Garem Jackson.

**PENDERFYNIAD**

a) Cymeradwyo'r strategaeth mewn egwyddor

b) Ein bod yn gofyn i Lywodraethwyr pob ysgol yn unigol i nodi a fyddent yn fodlon tanysgrifio'r gost adnewyddu dyfeisiadau o'u cyllidebau/ cronfeydd ysgolion ac os ddim i nodi pam;

c) Bod y gwasanaeth yn agor trafodaethau ar fyrder gyda rhan ddeiliad perthnasol i fanylu mwy ar sut y bwriedir cynnal y gyfundrefn a sut y bwriedir talu amdano gyda golwg ar gynnwys hynny yn y strategaeth ;

d) Gan gymryd nad ydym am gael yr holl arian ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn Medi, bod y gwasanaeth yn ystyried ac yn gosod allan beth fyddai'r cynllun ar gyfer mewnosod y strategaeth yn raddol;

e) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 8 Medi yn nodi lle dan ni wedi cyrraedd gyda hyn oll, gyda golwg ar i ni unai gymeradwyo'r Strategaeth yn derfynol neu i gymeradwyo gosod yr archeb gyntaf;

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth mewn egwyddor i'r strategaeth. Mynegwyd fod arian ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei wario ar offer sydd wedi ei gaffael yn genedlaethol. Nodwyd y bydd y buddsoddiad yn cryfhau isadeiledd technoleg gwybodaeth mewn ysgolion er mwyn cyfoethogi profiadau pobl ifanc. Ychwanegwyd fod Covid-19 wedi amlygu gwerth technegol gwybodaeth i gryfhau addysg o ran dysgu cyfunol a bod dysgu o bell wedi bod yn allweddol i gadw cysylltiad yn ystod y cyfnod.

Mynegwyd fod y strategaeth sydd wedi ei lunio yn un cyffroes sydd yn amlygu llwybr clir. Esboniwyd fod angen gwneud cais am arian cychwynnol ac er mwyn gwneud hyn fod angen i'r Cabinet mabwysiadu mewn egwyddor i symud ymlaen a'r gwaith. Ychwanegwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn trafodaethau gyda rhan ddeiliaid.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y Llywodraeth yn ariannu y rhan gyntaf y strategaeth o brynu'r cyfarpar technoleg gwybodaeth ond fod angen dod o hyd i'r arian er mwyn diweddaru a chefnogi'r dyfeisiadau.
- Mynegwyd fod y strategaeth a bwriad gwych ond fod yr ymrwymiad yn sylweddol. Holwyd beth yw'r safon mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ei gyrraedd a beth mae awdurdodau eraill yn ei wneud. Holwyd os oes opsiynau eraill a phwysleisiwyd pwysigrwydd o gael ymgynghoriad ac

ysgolion. Nodwyd nad yw'r cyfarpar sydd ar gael yn ddigon da a bod hyn i'w weld ledled Cymru. Amlygwyd y safonau sydd yn ddisgwyliedig sydd yn cynnwys safonau diogelwch a rheoli dyfeisiadau. Pwysleisiwyd fod Gwynedd yn awyddus i roi dyfais i bob plentyn yn yr ysgol uwchradd fel bod modd iddynt gael ei defnyddio ymhob gwers gan roi'r cyfle i bob plentyn barhau gyda'r dysgu adref yn ogystal.

- Amlygwyd fod diweddaru'r cyfarpar am fod oddeutu £2m a bod y strategaeth yn nodi cyfraniadau gan ysgolion sydd yn ddigon teg, ond pwysleisiwyd yr angen i gael trafodaethau gyda'r ysgolion. Nodwyd fod trafodaethau wedi cychwyn a'i bod wedi amlygu fod y symiau yn rhy uchel i rai ysgolion gan ei fod yn ymrwymiad tymor hir.
- Croesawyd y weledigaeth ond nodwyd fod pryderon am wybodaeth ac nad oedd yr elfennau ariannu yn gwbl glir.
- Nodwyd fod y Cyngor yn awyddus i leihau ôl troed carbon a bod y teclynnau ag ôl troed go fawr, holwyd beth fydd yn cael ei wneud i leihau hyn. Holwyd yn ogystal os bydd y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y feddalwedd ar y cyfarpar. Nodwyd fod y cyfarpar ar hyn o bryf wedi dyddio ac o ganlyniad yn defnyddio lefel uchel o drydan ac felly y bydd cyfarpar newydd yn fwy gwyrdd. O ran yr elfen ieithyddol nodwyd fod popeth yn cael ei wneud drwy HWB ac felly dewis iaith yn y llwyfan gweithredu.
- Mynegwyd fod y strategaeth yn un uchelgeisiol o'i gymharu ag awdurdodau eraill ond ei fod yn gyfle i gyfarch y cwricwlwm newydd yn ogystal.
- Amlygwyd fod trafodaethau wedi ei gynnal a phob ysgol uwchradd ynghyd a Ffederasiwn ysgolion Cynradd.
- Mynegwyd fod y ddarpariaeth ddigidol mewn addysg ar draws y sir angen ei wella a dangoswyd cefnogaeth i'r cynllun. Adnabu fod llawer o gwestiynau yn codi megis sut i sicrhau ei fod yn gynaliadwy. Amlygwyd angen i drafod a rhan ddeiliad, llywodraethwyr ac ysgolion a gofynnwyd am adroddiad pellach i'r Cabinet ar 8fed Medi er mwyn dechrau'r broses ac i brynu amser fel bod cyfle i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi gael cyfle i edrych ar y strategaeth yn ogystal.

## 7. PROSIECT PROFI OLRHAIN DIOGELU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith

**PENDERFYNIAD**

- Ymrwymo i Gytundeb Rhwng Awdurdodau (CRA) gydag awdurdodau lleol eraill y Gogledd i reoli'r gwaith o recriwtio a rheoli staff ychwanegol i weithredu'r prosiect Profi Olrhain Diogelu;
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno dogfen derfynol a chwblhau'r cytundeb.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod nifer o drafodaethau wedi ei cynnal am yr eitem hwn. Amlygwyd y penderfyniad gan nodi y bydd yn ymrwymo'r Cyngor i gytundeb a fydd yn rheoli'r gwaith ac y recriwtio y gwaith i Brofi Olrhain Diogelu. Tynnwyd sylw at sylwadau'r swyddogion statudol oedd i'w gweld yn yr adroddiad.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd cefnogaeth i'r cynllun gan nodi i fod yn amlygu cydweithio ar draws y gogledd ac yn sicrhau nad yw'r awdurdodau yn ceisio cystadlu am yr un staff.
- Nodwyd ei bod yn falch fod trefniadau pendant yn ei lle ond gan fod recriwtio ac adnoddau dynol yn cael ei wneud yn Sir Fflint gofynnwyd os oes modd sicrhau fod safonau iaith yn cael ei gadw ynghyd ag oriau o fewn y cytundeb. Pwysleisiwyd y bydd y Gymraeg yn cael ei flaenoriaethu pan yn creu rhestr fer yng Ngwynedd, a nodwyd fod yr oriau o fewn y cytundeb yn cyd fynd a'r gwaith – gall cyfnodau fod yn brysur ac yn dawel. Ymhelaethwyd gan nodi nad yw'n amlwg faint o staff fydd ei angen

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.05 y.h.

**CADEIRYDD**